OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1191

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020

## RHAN 4

Diwygiadau amrywiol i Atodlenni 1 a 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiadau i Atodlen 2 (personau esempt)**

**6.**—(1) Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 3(2)(b) rhodder—

"(b) ystyr "llu ar ymweliad" yw unrhyw gorfflu, criw neu adran o luoedd gwlad, sy'n gorfflu, criw neu adran o luoedd sy'n bresennol am y tro yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys dyfroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig), ar wahoddiad Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig."

(3) Ar ddiwedd paragraff 13(1), yn eiriau cloi o dan baragraff (c), mewnosoder—

"pan fônt wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs eu gwaith."

(4) Ym mharagraff 24(1), yn lle "14 o ddiwrnodau ar ôl cyrraedd y Deyrnas Unedig" rhodder "y cyfnod pan fyddent, oni bai am y paragraff hwn, wedi bod yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu (o fewn ystyr rheoliad 10(2) o'r Rheoliadau hyn)".

(5) Ar ddiwedd paragraff 24(1), yn eiriau cloi o dan baragraff (d), mewnosoder—

"pan fônt wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs eu gwaith."

(6) Ym mharagraff 38, yn lle is-baragraff (2)(a)(ii) a (iii) rhodder—

"(ii) sydd wedi ei ddynodi felly at ddibenion y Rheoliadau hyn gan Gyngor Chwaraeon Cymru,

(iii) sydd wedi ei ddynodi felly at ddibenion Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020([1]) (er gwaethaf dirymu'r Rheoliadau hynny), neu

(iv) nad yw'n dod o fewn is-baragraff (i), (ii) na (iii) sy'n cymryd rhan yng nghynghrair Pencampwyr UEFA neu gynghrair Europa UEFA."

(**1**) O.S. 2020/725 (Cy. 162).